HM Revenue
& Customs

# Disability matters

## How we can support you during our selection process





# What we offer

We are delighted that you are considering applying for a role with HMRC and wish you every success with your application. Our goal is making everyone feel valued, supported and comfortable at all times, whether that's while applying for a role or when working with us.

When you join us, you join a friendly and helpful community. We'll give you the support you need to grow in confidence, help you enjoy your time inside and outside the work place ensuring you have a good work-life balance. We really believe in making HMRC a great place for everyone to work. To help achieve this, we provide our people with an extensive number of benefits, extras and memberships when you start. Take a look at our Little Extras and Big Benefits booklet to find out more.

**Daljit Rehal, CDIO Director General and HMRC's Disability Champion**



"As HMRC Disability Champion I am committed to help build an inclusive environment at HMRC where everyone feels respected and included regardless of difference. A passionate advocate for leading change, I ensure that we make improvements to our recruitment selection processes and bring accessibility to the forefront of everything we do so everyone has the same opportunities to secure a role in HMRC and have a fulfilling and successful career with HMRC."

"Because of my condition, I asked to be allowed to bring my fidget cube and ear defenders into the interview and problem test, just in case the room it was held in was auditorily overstimulating. This request was met, and it helped me through the interview process."

**Neil, HMRC Human Resources**

# Do you need assistance?

We want to create an inclusive and respectful environment, and a workforce that fully reflects the diversity and values of our society. Within our recruitment process, we want to maximise the potential of everyone who chooses to apply for a role with us and ensure we support all candidates throughout our selection process.

Our commitment is to consider all requests for reasonable adjustments from candidates protected under the Equality Act 2010. Reasonable adjustments make sure everyone is able to compete for jobs on a level playing field.

Everyone's needs are different, and any requests will be reviewed discreetly and treated on a case by case basis, taking into consideration your own unique personal circumstances and the facts provided. Anything you tell us will not affect how your application proceeds.

**Gillian Smith, HMRC Deputy Director Equality, Diversity and Inclusion**



"HMRC has been recognised as a Disability Confident employer, and for our ground-breaking and award-winning Inclusive Building Design. When you work for us, we will consider the adjustments you need to succeed and flourish. This also extends to our recruitment and selection processes. I encourage you to be open about the support you need throughout the recruitment process, so that we can provide you with the best opportunity to show us your talents and potential. Best wishes for your application."

"In high pressure situations, I stim to help calm myself. Stims are repetitive physical actions, for example, flapping my hand, clicking my fingers, or rocking. I asked for the panel to be made aware in advance that this might happen, and they were completely understanding."

**Molly, HMRC Customer Strategy and Tax Design**

# How we can help

The information provided below is not definitive or exhaustive. We understand that there is no 'one size fits all' and all adjustments will be unique to the individual. These are just some examples of assistance we have provided during recruitment selection and any request for adjustments will be considered on its own merits.

| | |
|---|---|
| **Application stage** | Some individuals may require that any printed material is provided in Braille or audio format. |
| **Online tests** | Some online test questions are presented as videos. Some individuals may not be able to access these, so alternative written transcripts are available within the test. There are also subtitles within the videos, and audio description which describes the video setting. There are other adjustments that can be considered here. |
| **Pre-recorded interviews** | Some of our interviews are pre-recorded, with a set time for a response. You can ask for extra time, if for example you have a speech impediment, to allow you additional time to respond.<br><br>For some individuals with neuro-diverse conditions, pre-recorded interviews may not be the best approach. In these situations, an alternative interview approach could be considered, this could be a virtual interview via Teams or face-to-face, depending on the circumstances. |
| **Virtual or face-to-face live interviews** | You may need discuss scheduling breaks during your interview if you have epilepsy.<br><br>For individuals that use support, such as a BSL interpreter or lip-speaker, you can request extra time to answer each question.<br><br>If you have a neuro-diverse condition, we can consider providing the interview questions shortly before your interview starts.<br><br>If the interview is being held in one of our offices, you can request a pre-visit to the interview room to familiarise yourself with the space and identify any adjustments you may need to manage heightened sensitivities relating to light, noise and layout. |



# We’re here to help support you

We would like to make sure you understand that as a candidate you don’t have any obligation at all to give HMRC any information regarding your health. It is up to you and you only to decide if and at what point you disclose your health condition or disability if you have one. However, we can only make adjustments where we know about them and based on the information you give us.

You may have already ticked the assistance required box in your application form, so will already be communicating with our recruitment provider (Government Recruitment Services) about adjustment requests.

If you have forgotten to tick the box, or in retrospect now feel that you may require an adjustment, don’t worry – it’s not too late to request one. You can let us know by emailing the address shown in the ‘Contact point for applicants’ section of the advert, to discuss any requests you have.

Any information you provide will be held in strict confidence and will not affect your progression through the application/decision process in any way.

We recommend that you keep a copy of the job advert for your records. When the advert closes it is no longer available to view on the system.

“As an autistic person, I can find eye contact uncomfortable, so might not look directly at people. My own body language and facial expression might not represent accurately what I am thinking and feeling, and I was worried about this. I let HMRC know before my interview and the panel were helpful and friendly throughout. I also agreed with the vacancy holder that I could have sight of the interview questions slightly before the interview, which meant I was more confident and focused, so could better demonstrate my suitability for the role.”

**David, HMRC Chief Digital and Information Officer Group**

# Further information

For more information on what it's like to work in HMRC please visit our HMRC pages on gov.uk

Working for HMRC

Reasonable adjustment for online tests

Scope: Support to work

Remploy

**Follow us**

- facebook.com/hmrc
- @hmrcgovuk
- HM Revenue & Customs
- hmrcgovuk
- @hmrcgovuk



Issued by
HM Revenue and Customs
June 2021
© Crown copyright 2021

Cyllid & Thollau EM

# Rhoi sylw i anabledd

## Sut y gallwn roi cymorth i chi yn ystod ein proses ddethol





# Yr hyn yr ydym yn ei gynnig

Rydym wrth ein boddau eich bod yn ystyried gwneud cais am swydd gyda CThEM a dymunwn bob llwyddiant i chi gyda'ch cais. Ein nod yw gwneud i bawb deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u bod yn gyfforddus ar bob adeg, p'un a yw hynny wrth ymgeisio am swydd neu wrth weithio gyda ni.

Pan ymunwch â ni, byddwch yn ymuno â chymuned gyfeillgar a chymwynasgar. Byddwn yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i fagu hyder, eich helpu i fwynhau'ch amser y tu mewn a'r tu allan i'r gweithle gan sicrhau bod gennych gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Rydym yn wirioneddol credu mewn gwneud CThEM yn lle ardderchog i bawb weithio. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym yn cynnig nifer helaeth o fuddion ac aelodaethau pan fyddwch yn dechrau. Darllenwch ein llyfryn Buddion bach a Manteision Mawr i ddysgu rhagor.

**Daljit Rehal, Hyrwyddwr Anabledd CThEM**



"Fel Hyrwyddwr Anabledd CThEM dwi wedi ymrwymo i helpu i adeiladu amgylchedd cynhwysol yn CThEM lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys waeth beth yw gwahaniaethau. Fel eiriolwr angerddol dros arwain newid, dwi'n gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud gwelliannau i'n proses recriwtio a dethol ac yn sicrhau bod hygyrchedd ar frig popeth a wnawn fel bod pawb yn cael yr un cyfleoedd i gael swydd a gyrfa foddhaol a llwyddiannus gyda CThEM."

"Oherwydd fy nghyflwr, gofynnais am gael dod â fy nghiwb 'ffidget' ac amddiffynwyr clust i mewn i'r cyfweliad a'r prawf problemau, rhag ofn bod yr ystafell y cafodd ei chynnal ynddi yn orysgogol yn glywedol. Cafodd y cais hwn ei fodloni, ac fe helpodd fi trwy'r broses gyfweld."

**Neil, Adnoddau Dynol CThEM**

# A oes angen cymorth arnoch?

Rydym am greu amgylchedd cynhwysol a llawn pharch, a gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth a gwerthoedd ein cymdeithas yn llawn. O fewn ein proses recriwtio, rydym am wneud y mwyaf o botensial pawb sy'n dewis gwneud cais am swydd gyda ni a sicrhau ein bod yn cefnogi pob ymgeisydd trwy gydol ein proses ddethol.

Ein hymrwymiad yw ystyried pob cais am addasiadau rhesymol gan ymgeiswyr sydd wedi'u diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae addasiadau rhesymol yn sicrhau bod pawb sy'n cystadlu am swydd yn cael chwarae teg.

Mae anghenion pawb yn wahanol, a bydd unrhyw geisiadau yn cael eu hadolygu'n synhwyrol a'u trin fesul achos, gan ystyried eich amgylchiadau personol unigryw eich hun a'r ffeithiau dan sylw. Ni fydd unrhyw beth yr ydych yn rhoi gwybod i ni yn effeithio ar sut mae'ch cais yn mynd yn ei flaen.

**Gillian Smith, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant CThEM**



"Mae CThEM wedi ei gydnabod fel cyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd, ac am yr Adeiladau Cynhwysol sydd gennym sy'n torri tir newydd ac wedi ennill gwobrau. Pan ydych yn gweithio i ni, byddwn yn ystyried yr addasiadau sydd eu hangen arnoch er mwyn llwyddo a ffynnu. Mae hyn hefyd yn ymestyn i'n prosesau recriwtio a dethol. Dwi'n eich annog i fod yn agored ynghylch y cymorth sydd ei angen arnoch trwy gydol y broses recriwtio, fel y gallwn roi'r cyfle gorau i chi ddangos eich doniau a'ch potensial i ni. Pob lwc gyda'ch cais."

"Mewn sefyllfaoedd lle rwy'n teimlo dan bwysau rwy'n defnyddio symudiadau corfforol ailadroddus ("stims") er mwyn fy helpu i ymdawelu, er enghraifft, fflapio fy nwylo, clicio fy mysedd, neu siglo nôl ac ymlaen. Gofynnais i'r panel gael ei wneud yn ymwybodol ymlaen llaw y gallai hyn ddigwydd, ac roeddent yn deall yn iawn."

**Molly, Strategaeth a Chynllunio Treth ar gyfer Cwsmeriaid CThEM**

# Sut y gallwn helpu

Nid yw'r wybodaeth a roddir isod yn derfynol nac yn gynhwysfawr. Rydym yn deall nad oes 'un ateb i bawb' a bydd pob addasiad yn unigryw i'r unigolyn. Dyma ambell i enghraifft o gymorth a roddwyd gennym wrth recriwtio a dethol a bydd unrhyw gais am addasiadau yn cael ei ystyried yn ôl ei rinwedd ei hun.

**Gwneud cais**

Mae'n bosibl y bydd angen i rai unigolion gael unrhyw ddeunydd wedi'i argraffu mewn Braille neu ar ffurf glywedol.

**Profion ar-lein**

Cyflwynir rhai cwestiynau prawf ar ffurf fideo. Mae'n bosibl na fydd rhai unigolion yn gallu cael mynediad i'r rhain, felly mae trawsgrifiadau ysgrifenedig ar gael o fewn y prawf. Mae hefyd isdeitlau o fewn y fideos, a disgrifiad sain sy'n disgrifio'r hyn sydd i'w weld. Mae addasiadau eraill y gellir eu hystyried yma.

**Cyfweliadau wedi'u recordio o flaen llaw**

Mae rhai o'n cyfweliadau wedi'u recordio o flaen llaw, gydag amser penodol ar gyfer ymateb. Gallwch ofyn am amser ychwanegol i'ch galluogi i allu ymateb, os, er enghraifft, oes gennych nam ar eich lleferydd.

I rai unigolion â chyflyrau niwroamrywiol, efallai nad cyfweliadau wedi'u recordio ymlaen llaw yw'r dull gorau o weithredu. Yn y sefyllfaoedd hyn, gellid ystyried dull cyfweld gwahanol. Gallai hwn fod yn gyfweliad rhithwir trwy'r meddalwedd 'Teams' neu wyneb yn wyneb, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

**Cyfweliadau byw rhithwir neu wyneb yn wyneb**

Mae'n bosibl y bydd angen i chi drafod trefnu seibiannau yn ystod eich cyfweliad os oes gennych epilepsi.

Ar gyfer unigolion sy'n defnyddio cymorth, megis dehonglydd BSL neu wefuslefarydd, gallwch ofyn am amser ychwanegol i ateb pob cwestiwn.

Os oes gennych gyflwr niwroamrywiol, gallwn ystyried darparu cwestiynau'r cyfweliad ychydig cyn i'ch cyfweliad ddechrau.

Os yw'r cyfweliad yn cael ei gynnal yn un o'n swyddfeydd, gallwch ofyn i gael ymweld â'r ystafell gyfweld ymlaen llaw er mwyn ymgyfarwyddo â'r lleoliad ac i nodi unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen arnoch er mwyn rheoli sensitifrwydd uwch sy'n ymwneud â golau, sŵn a chynllun yr ystafell.



# Rydym yma i helpu i roi cymorth i chi

Hoffem sicrhau eich bod yn deall nad oes gennych unrhyw ymrwymiad o gwbl fel ymgeisydd i roi unrhyw wybodaeth i CThEM am eich iechyd.

Eich penderfyniad chi a chi'n unig yw a ydych yn datgelu'ch cyflwr iechyd neu'ch anabledd os oes gennych chi un, ac ar ba bwynt y byddwch yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, ni allwn wneud addasiadau oni bai ein bod yn gwybod amdanynt ac yn seiliedig ar y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni.

Mae'n bosibl eich bod eisoes wedi ticio'r blwch ar eich ffurflen gais yn nodi bod angen cymorth arnoch, ac felly byddwch eisoes yn cyfathrebu â'n darparwr recriwtio (Gwasanaethau Recriwtio'r Llywodraeth) ynghylch ceisiadau am addasiadau.

Os ydych wedi anghofio ticio'r blwch, neu wedi ailfeddwl y peth ac nawr yn teimlo y gallai fod angen addasiad arnoch, peidiwch â phoeni – nid yw'n rhy hwyr i ofyn am un. Gallwch roi gwybod i ni drwy e-bostio'r cyfeiriad a ddangosir yn yr adran 'Pwynt cyswllt ar gyfer ymgeiswyr' o'r hysbyseb, er mwyn trafod unrhyw ofynion sydd gennych.

Bydd unrhyw wybodaeth a rowch yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol ac ni fydd yn effeithio ar eich taith trwy'r broses ymgeisio neu'r broses benderfynu mewn unrhyw ffordd.

Rydym yn argymell eich bod yn cadw copi o'r hysbyseb swydd ar gyfer eich cofnodion. Pan fydd yr hysbyseb yn cau nid yw bellach ar gael i'w gweld ar y system.

"Fel person awtistig, gall cyswllt llygad fod yn anghyfforddus i fi, felly efallai na fyddaf yn edrych yn uniongyrchol ar bobl. Efallai na fyddai iaith fy nghorff a mynegiant fy wyneb yn cynrychioli'n gywir yr hyn dwi'n ei feddwl a'i deimlo, ac roeddwn yn poeni am hyn. Rhoddais wybod i CThEM cyn fy nghyfweliad ac roedd y panel yn gyfeillgar ac o help mawr drwy'r profiad. Cytunais hefyd â deiliad y swydd wag y gallwn fwrw golwg ar gwestiynau'r cyfweliad ychydig cyn y cyfweliad. Roedd hyn yn golygu fy mod yn fwy hyderus ac yn gallu canolbwyntio, felly roeddwn yn gallu dangos fy addasrwydd ar gyfer y swydd yn well."

**David, Grŵp Prif Swyddog Gwybodaeth a Gwasanaethau Digidol CThEM**

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am sut beth yw gweithio yn CThEM, ewch i dudalennau CThEM ar gov.uk

Gweithio i CThEM

Addasiadau rhesymol ar gyfer profion ar-lein

Scope: Support to work

Remploy

**Dilynwch ni**

facebook.com/hmrc

@hmrcgovuk

HM Revenue & Customs

hmrcgovuk

@hmrcgovuk



Anfonwyd gan
Cyllid a Thollau EM
Mehefin 2021
© Hawlfraint y Goron 2021